Saesneg isod/English below

CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun 27ain Ebrill 2026 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**
Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, William T Davies, Rhys Williams, Lona Harries, WRP Jones, Shan Jones a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) ynghyd a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor. Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Eurgain Haf Davies. Nid oedd unrhyw **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda.

Dywedodd y Cyng Alwyn Roberts fod y Cyngor wedi cael blwyddyn brysur iawn. Uchafbwynt y flwyddyn o bosib oedd agor yr Ardd Goffa ar yr 20fed o Mehefin gan Mabon ap Gwynfor. Diolchodd yn fawr iawn i bawb am eu cymorth efo hyn.
Mater arall holl bwysig oedd y gwelliannau a gafwyd drwy'r Cynllun grant 'Gwynedd Ni' Cafwyd gwelliant mawr I'r toiledau, a thacluswyd y safle beics ger Cefn Coch. Cariwyd ymlaen gyda gwaith arferol y Cyngor, sef ymateb I ymholiadau'r cyhoedd, cyfrannu i achosion lleol, ac ymatebwyd I geisiadau cynllunio. Hefyd gofalwyd am y toiledau, a llwybrau'r ardal. Roedd y Cyng Shan Jones wedi ymuno efo'r Cyngor yn ystod y flwyddyn aeth heibio yn dilyn ymddeoliad Catrin Rutherford. Diolchodd yn fawr iawn i bawb.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain o Chwefror** ar gynnig Cyng William T Davies a'i eilio gan Cyng Rhys Williams.
4. **Materion yn codi.**

a) **Materion Priffyrdd** – Nodwyd ymatebion i'r ymholiadau ers tro diwethaf. Roedd angen atgoffa am y coed yn gwyro i'r ffordd fawr o Coed Bodywyn- o mynedfa Ecriw i dop y coed.

Roedd Cyng Alwyn Roberts wedi siarad efo'r Adran Briffyrdd , ac roedd awgrym rhoi arwydd 'Ffordd ddim yn addas, gyrrwyr ar eu risc eu hunain' mewn rhai mannau. Cytunwyd i hyn ar waelod ffordd Rhydycriw, Blaidd, ac o Pantgwyn i'r Ffordd Ddu – sef arwydd y ddau ben. Roedd angen iddynt siarad efo Alwyn i gadarnhau.

b) **Gardd Goffa** – nodwyd y diweddaraf gyda'r cais i roi plac, a byddai rhaid trafod yn y cyfarfod nesaf.

c) **Cynllun trafnidiaeth cymunedol** – adroddwyd y diweddaraf am y prosiect yma, a chofnodion 30.03.26.

d) **Parcio tu allan yn Neuadd yn Llanegryn** – nid oedd unrhyw wybodaeth pellach i law.

e) **Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned** – ystyriwyd ymhellach syniadau eleni. Gwelwyd fod angen hysbysfwrdd yn Llanegryn ac yn Cefn Coch – fyddai yn rhoi manylion hanes yr ardal, manylion am y pentref/Eglwys/ Neuadd/Ysgol/Parc Chwarae

ayyb, gyda lle i roi gwybodaeth lleol yn y canol.  Byddai Beth a Shan yn cael amcangyfrifon, a byddai y Clerc yn cysylltu gyda Liz Fenwick (allai wneud gwaith celf) i gael dyddiadau addas pryd y gallai ddod i'r Cyngor i drafod.

f) **Cynllun Datblygu lleol Eryri –** cyfeiriwyd eto am y cyfle i roi safleoedd posib gerbron.

5.**Ethol Swyddogion 2026-27.**

Ar gynnig Cyng WRP Jones a'i eilio gan Cyng William Davies, cytunwyd yn unfrydol ar enw **Cyng Alwyn Roberts yn Gadeirydd am 2026-27 a'r Cyng Rhys Williams yn Is-Gadeirydd am 2026-27.**

**6. Penderfynnu ar delerau a chostau Clerc am 2026-27.**

Cadarnhawyd y ffigurau, sef cyflog o £2000 a chostau o £600.
(Gadawodd y Clerc yr ystafell pan benderfynwyd hyn)

7.**Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Llanegryn ar gyfer 2026/27**

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol – Nos Lun 8/06/26, Nos Lun 27/07/26, Nos Lun 28/09/26, Nos Lun 30/11/26, Nos Lun 25/01/27,  a Nos Lun 22/02/27, a byddai'r Clerc yn eu rhoi ar wefan y Cyngor.

8. **Derbyn ffurflenni cofrestr buddiannu gan y Cynghorwyr –** cafodd pawb gyfle i'w llenwi, a byddent yn cael eu rhoi ar y wefan.

   **Mabwysiadu y Cod Ymddygiad ar gyfer 2026-27**  ( roedd copi wedi ei ddanfon i bawb ar e-bost)

Ar gynnig Cyng WRP Jones a'I eilio gan Cyng Lona Harries, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y cod ymddygiad ynghyd a'r canlynol;

**Rheoliadau ariannol a rheoliadau sefydlog**

**Asesiad risg cyffredinol y Cyngor a'r Ardd Goffa** (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw I'r Cynghorwyr)

**Cofrestr asedau** – cadarnhawyd y ffigwr o £40,000, sef ar gyfer y toiledau a'r Ardd Goffa – wedi eu dosbarthu.

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth** ( sydd oll ar wefan y Cyngor)

9. **Cynrychiolaeth ar fudiadau allanol** – cadarnhawyd enw Cyng Lona Harris ar bwyllgor Meirionnydd o Un Llais Cymru, a Cyng Eurgain Davies ar Bwyllgor Neuadd Llanegryn.

10. **Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion**.**

11. **Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau** y cyfrifon 31.03.26 , sef Cyfri Cyfredol £4216.60 a Cyfri Bus Manager £4561.46.

Roedd rhan gyntaf y praesept i law, sef £3925 ar 29.04.26.(dim yn gynwysedig yn yr uchod) Hefyd roedd y Clerc wedi gwneud cais am ad-daliad TAW, sef cyfanswm o £1536.50

**b) Cyfrifon 2025-26** - roedd y cyfan wedi eu paratoi gan y Clerc - a cyflwynwyd yr holl ddogfennau, cofnodion, y fantolen, Datganiad Blynyddol, ac adroddiad yr Archwilydd Mewnol yn ffurfiol i'r Cynghorwyr. Byddai'r hysbyseb yn ymddangos i'r cyhoedd, gyda chopi ar y wefan maes o law. Roeddynt eisoes wedi bod trwy law yr Archwilydd mewnol, ac nid oedd unrhyw ymholiadau. Atgoffwyd pawb fod archwiliad llawn eleni i Gyngor Llanegryn.

**c) Anfonebau i'w talu**.

Ar gynnig Cyng Lona Harries a'i eilio gan Cyng. Rhys Williams, cytunwyd ar y canlynol;

- Llogi Neuadd Egryn i gyfarfodydd y Cyngor (2025-26) - £165
- Anfoneb Archwilio Cymru am gyfrifon 2019/20 - £200. (roedd siom fawr am yr oedi yn derbyn hwn gan Archwilio Cymru, a byddai rhaid gwirio na chafodd hyn ei dalu o'r blaen.)

**d) Ceisiadau am arian –** dim i law.

**12. Gohebiaeth.**

a) **Nodwyd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru**, a'r cynllun hyfforddiant.

b) **Ceisiadau Cronfa Huw Owen** – roedd 3 cais i law, a dosbarthwyd copiau. Cytunwyd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol, ac nad oedd sylwadau pellach. Gwelwyd fodd bynnag y dylid cael mwy o wybodaeth am y gronfa, a bod mwy o gyhoeddusrwydd yn lleol.

c) **Cronfeydd Cymunedol Eryri** – nodwyd y ceisiadau posib drwy'r Parc Cenedlaethol o dan y gronfa yma. Byddai'r Clerc yn dosbarthu.

13. **Unrhyw fater arall.**

- Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi gosod offer newydd yn y cae chwarae, a hefyd rhoi giat newydd.
- Roedd arwydd ger y fynedfa i Llanegryn ger Cefn Coch yn gwyro, ac angen sylw.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 8fed Mehefin 2026 , 7.30y.h.**

**Minutes of the Annual Meeting of the Council**, held on Monday evening, 27 April 2026 at 7:30pm in the Hall, Llanegryn.

**Present:** Cllr Alwyn Roberts, William T Davies, Rhys Williams, Lona Harries, WRP Jones, Shan Jones, and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council), together with Huw T Jones (Clerk).

**1.** The Chair, Alwyn Roberts, extended a warm welcome to everyone to the Council's Annual Meeting. Apologies were received from Cllr Eurgain Haf Davies. There were no declarations of interest regarding items on the agenda.

Cllr Alwyn Roberts stated that the Council had had a very busy year.
A highlight of the year was the opening of the Memorial Garden on 20 June by Mabon ap Gwynfor. He expressed sincere thanks to everyone for their support with this.
Another very important matter was the improvements achieved through the "Gwynedd Ni" grant scheme. There had been significant improvements to the toilets, and the bike area near Cefn Coch had been tidied. The Council had continued with its usual work, responding to public enquiries, contributing to local causes, and responding to planning applications. The toilets and local footpaths had also been maintained.
Cllr Shan Jones had joined the Council during the past year following the retirement of Catrin Rutherford. Thanks were extended to everyone.

---

**2.** It was noted that there were no requests from members of the public to present on any agenda item.

**3.** The minutes of the meeting held on 23 February were confirmed, proposed by Cllr William T Davies and seconded by Cllr Rhys Williams.

---

**4. Matters Arising**

a) **Highways Matters** – Responses to previous enquiries were noted. It was necessary to follow up regarding trees leaning into the main road from Coed Bodywyn—from the Ecriw entrance to the top of the woods.
Cllr Alwyn Roberts had spoken with the Highways Department, and it was suggested to install signs stating "Road not suitable, drivers use at their own risk" in certain places. This was agreed for the bottom of Rhydycriw road, Blaidd, and from Pantgwyn to the Ffordd Ddu—signs at both ends. They would need to confirm details with Alwyn.

b) **Memorial Garden** – An update regarding the request to install a plaque was noted; this would need to be discussed at the next meeting.

c) **Community Transport Scheme** – The latest update on this project was reported, along with minutes dated 30.03.26.

d) **Parking outside Llanegryn Hall** – No further information was available.

e) **Community Council Support Fund** – Ideas for this year were further considered. It was agreed that noticeboards were needed in Llanegryn and Cefn Coch, providing historical information about the area and details about the village, church, hall, school, playground, etc., with space for local information in the centre. Beth and Shan would obtain estimates, and the Clerk would contact Liz Fenwick (who could undertake artwork) to arrange a suitable date to meet with the Council.

f) **Eryri Local Development Plan** – The opportunity to submit potential sites was noted again.

---

**5. Election of Officers 2026–27**
Proposed by Cllr WRP Jones and seconded by Cllr William Davies, it was unanimously agreed

that Cllr Alwyn Roberts would serve as Chair for 2026–27 and Cllr Rhys Williams as Vice-Chair for 2026–27.

---

**6. Clerk's Terms and Costs for 2026–27**
The figures were confirmed: salary £2000 and expenses £600.
(The Clerk left the room during this decision.)

---

**7. Meeting Dates for 2026/27**
The following dates were confirmed:
Monday 8/06/26, Monday 27/07/26, Monday 28/09/26, Monday 30/11/26, Monday 25/01/27, and Monday 22/02/27.
The Clerk would publish these on the Council website.

---

**8. Declarations of Interest Forms**
All Councillors were given the opportunity to complete their forms, which would be uploaded to the website.

The Code of Conduct for 2026–27 was adopted (a copy had been emailed to all).
Proposed by Cllr WRP Jones and seconded by Cllr Lona Harries, and agreed by all, the Code of Conduct was adopted along with:

- Financial regulations and standing orders
- General risk assessments for the Council and the Memorial Garden (circulated in advance)
- Asset register – confirmed at £40,000 (for the toilets and Memorial Garden)
- Additional policies: complaints, equal opportunities, environmental, biodiversity, data protection, and freedom of information (all available on the Council website)

---

**9. Representation on External Bodies**
Cllr Lona Harries was confirmed on the Meirionnydd Committee of One Voice Wales, and Cllr Eurgain Davies on the Llanegryn Hall Committee.

---

**10. Planning Matters**
There were none.

---

**11. Financial Matters**

a) Account balances as at 31.03.26 were noted:

- Current Account: £4216.60
- Business Manager Account: £4561.46

The first instalment of the precept (£3925) was received on 29.04.26 (not included above). The Clerk had also submitted a VAT reclaim totalling £1536.50.

b) **Accounts 2025–26** – All prepared by the Clerk. All documents, records, balance sheet, Annual Return, and Internal Auditor's report were formally presented to Councillors. A public notice would be issued, with a copy on the website. The accounts had already been reviewed by the Internal Auditor, with no queries. Councillors were reminded that a full audit would take place this year.

c) **Invoices for Payment**
Proposed by Cllr Lona Harries and seconded by Cllr Rhys Williams, the following were agreed:

- Hire of Egryn Hall for Council meetings (2025–26): £165
- Audit Wales invoice for 2019/20 accounts: £200 (there was disappointment at the delay in receiving this; it would need to be checked whether it had already been paid)

d) **Funding Applications** – None received.

---

**12. Correspondence**

a) Training dates and training plan from One Voice Wales were noted.

b) **Huw Owen Fund Applications** – Three applications had been received and circulated. The Community Council was supportive, with no further comments. However, it was noted that more information about the fund and greater local publicity would be beneficial.

c) **Eryri Community Funds** – Potential applications through the National Park were noted; the Clerk would circulate details.

---

**13. Any Other Business**

- Gwynedd Council had installed new equipment in the playground and also provided a new gate.
- A sign near the entrance to Llanegryn by Cefn Coch was leaning and required attention.

---

**Date of Next Meeting:**
Llanegryn Hall, Monday 8 June 2026 at 7:30pm.